Firebrake Wales
The Welsh Fire Safety Charity

# Fire Safety...

## make the connection

# WHO? WHY? HOW? WHAT?

## Support in improving the fire safety of your clients

Atal Tân Cymru
Elusen Diogelwch Tân Cymru

# Diogelwch Tân...
## gwneud y cysylltiad

# PWY? PAM? SUT? BETH?

## Cefnogaeth ar gyfer gwella diogelwch tân eich cleientiaid

FirebrakeWales
The Welsh Fire Safety Charity

# Fire Safety...
## make the connection

WHO?
WHY?
HOW?
WHAT?

**Support in improving the fire safety of your clients**

# WHO?

## About Firebrake Wales

The Wales Community Fire Safety Trust, known as Firebrake Wales, is a registered charity and company limited by guarantee established in 2002.

Our mission is to reduce the incidence of deaths and injuries in fires by raising awareness of risks, providing safety information, promoting fire safety research and encouraging collaboration between the public, private and voluntary sectors to make Wales a safer place.

Firebrake Wales is an independent charity but has strong links with the three Welsh Fire and Rescue Services, drawing upon their expert knowledge and support where required.

Our activities are based on the following:

## Evidence-based Practice

Using research to target those most at risk of fire, hardest to reach with conventional fire safety messages and those hardest to influence in order to encourage safer attitudes and behaviours. The charity is committed to evaluating and learning from all its activities to achieve continuous improvement in practice and performance.

## Partnership Approach

Working with organisations that share an interest in making communities safer. In particular, the charity brings together practitioners from the Fire and Rescue Services, those responsible for the development of fire prevention policies in the Welsh Assembly Government and organisations that engage with communities most at risk, hardest to reach and hardest to influence.

# THE WELSH FIRE SAFETY CHARITY

WHO?

# WHY?

"Overall, nearly 80% of all fires involved victims who were impaired in some way, either through substance use, mental or physical impairment (whether or not related to age), or a combination of these factors.

Alongside the immediate causes of a fire (e.g. carelessly discarded cigarettes), **alcohol**, **mobility** and **mental illness** are the biggest single influences on whether a fire starts and/or whether it has fatal consequences".*

## Whether by behaviour or circumstances some groups are more at risk of a fire in the home

The incidence of fires in the home has been steadily decreasing over the past decade. However, evidence shows us that deaths and injuries in home fires are not decreasing evenly amongst all groups of people.

However, many of these groups are often known to and interact with agencies and organisations like yours. It has been recognised that by working with those organisations the fire safety of these vulnerable groups can be improved.

## Reaching those most at risk

Amongst these groups individual needs and the level of risk will differ. Partner organisations are more readily able to assess individual levels of need and can help to reach those most at risk where a more general approach is less effective.

We do recognise that the promotion of fire safety may not be part of your core activity. However, working with Firebrake could offer you the support to tackle something which is a recognised risk for your client group.

* Learning Lessons from Real Fires: Findings from Fatal Fire Investigation Reports. CLG (in Arson Control Forum, Research Bulletin No.9, 2006).

# MANY PEOPLE WHO DIE OR ARE INJURED IN FIRES ARE KNOWN TO SUPPORT AGENCIES

WHY?

# HOW?

In terms of improving fire safety, research has shown that working with organisations that have an ongoing and trusted relationship with clients can address the unsafe behaviours and conditions that increase risk.

## One size does not fit all

We are able to tailor solutions for the organisations we work with, taking into account:

- your client group
- your capacity
- your preferred ways of working

Practical solutions we are able to offer include:

- a consistent point of contact
- processes for client referral
- training for staff to recognise client fire risk
- generic and tailored materials to further support staff
- liaison with the Fire Services in Wales
- ongoing research to develop sustainable fire safety practice

## The whole is greater than the sum of the parts

There is a very real risk of injury or death from fire amongst the people you work with. Firebrake can bring knowledge, expertise and support in tackling this risk together. We recognise that your organisation is already supporting this client group on a daily basis - you know your client.

Engagement with us can mean anything from providing written guidance on fire safety for your staff and/or clients right through to working directly with you to improve knowledge and practice in relation to fire safety.

# PRACTICAL SUPPORT TO IMPROVE THE FIRE SAFETY OF YOUR CLIENTS

HOW?

# WHAT?

## What next?

We would welcome the opportunity to explore ways we could work together for the benefit of your clients.

For an informal conversation contact us on 01633 654000.

If you would prefer to contact us via email, please address to info@firebrake.org

To read more about the work of Firebrake Wales, visit our website at www.firebrake.org

# LET'S TALK

Firebrake Wales
The Welsh Fire Safety Charity

# Fire Safety...

## make the connection

WHO?
WHY?
HOW?
WHAT?

www.firebrake.org

Atal Tân Cymru
Elusen Diogelwch Tân Cymru

# Diogelwch Tân...

gwneud y cysylltiad

PWY?
PAM?
SUT?
BETH?

www.ataltan.org

# PWY?

## Ynglŷn ag Atal Tân Cymru

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant yw Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol, sy'n adnabyddus dan yr enw Atal Tân Cymru, ac fe'i sefydlwyd yn 2002.

Ein cenhadaeth yw gostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau mewn tanau, a hynny trwy godi ymwybyddiaeth am y peryglon, darparu gwybodaeth am ddiogelwch, hyrwyddo ymchwil i ddiogelwch tân, ac annog cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn gwneud Cymru'n wlad fwy diogel.

Elusen annibynnol yw Atal Tân Cymru, ond mae ganddi gysylltiadau cryf gyda'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, gan fanteisio ar eu gwybodaeth arbenigol a'u cefnogaeth lle bo angen.

Mae ein gweithgareddau wedi eu seilio ar y canlynol:

## Ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth

Defnyddio ymchwil i dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân, y rhai sydd fwyaf anodd eu cyrraedd gyda'r negeseuon diogelwch tân arferol, a'r rhai y mae'n fwyaf anodd dylanwadu arnynt, a hynny er mwyn annog agweddau ac ymddygiadau mwy diogel.  Mae'r elusen wedi ymrwymo i werthuso a dysgu o ganlyniad i'w holl weithgareddau er mwyn cael gwelliant parhaus o ran arferion a pherfformiad.

## Dull Partneriaethol

Gweithio gyda sefydliadau sy'n rhannu'r diddordeb mewn gwneud cymunedau'n fwy diogel. Yn arbennig, mae'r elusen yn dwyn ynghyd ymarferwyr o'r Gwasanaethau Tân ac Achub, y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu polisïau atal tanau yn Llywodraeth y Cynulliad, a sefydliadau sy'n meithrin perthynas â chymunedau sydd fwyaf mewn perygl, y rhai sydd fwyaf anodd eu cyrraedd a'r rhai y mae'n fwyaf anodd dylanwadu arnynt.

# ELUSEN DIOGELWCH TÂN CYMRU

PWY?

# PAM?

"Yn gyffredinol, roedd bron 80% o'r holl danau yn ymwneud â dioddefwyr oedd ag amhariad o ryw fath, naill ai trwy ddefnyddio sylweddau, amhariad meddyliol neu gorfforol (boed yn gysylltiedig ag oedran neu beidio), neu gyfuniad o'r ffactorau hyn.

Ynghyd â'r achosion uniongyrchol i dân (e.e. bod yn ddiofal wrth gael gwared ar sigaréts) **alcohol**, **symudedd** a **salwch meddwl** yw'r dylanwadau unigol mwyaf ar p'un ai y bydd tân yn cychwyn a/neu p'un ai y mae iddo ganlyniadau angheuol".*

## Boed oherwydd ymddygiad neu amgylchiadau, mae rhai grwpiau mewn mwy o berygl o dân yn y cartref

Mae nifer y tanau yn y cartref wedi bod yn gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r marwolaethau a'r anafiadau yn gostwng yn gyfartal rhwng pob grŵp o bobl.

Fodd bynnag, yn aml mae llawer o'r grwpiau hyn yn gyfarwydd i asiantaethau a sefydliadau fel eich un chi, ac mewn cysylltiad â hwy. Cydnabuwyd y gellid gwella diogelwch tân y grwpiau bregus hyn trwy weithio gyda'r sefydliadau hynny.

## Cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn perygl

Ymhlith y grwpiau hyn, bydd gwahaniaethau yn yr anghenion unigol a lefel y risg. Mae sefydliadau partneriaethol yn gallu asesu lefelau anghenion unigol yn rhwyddach, ac maent yn gallu bod yn gymorth i gyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn perygl, tra bo dull mwy cyffredinol yn llai effeithiol.

Rydym yn cydnabod nad yw hybu diogelwch tân, efallai, yn rhan o'ch gweithgareddau craidd. Fodd bynnag, fe allai partneriaeth gydag Atal Tân gynnig y gefnogaeth ichi fynd i'r afael â rhywbeth sy'n cael ei gydnabod yn risg i'ch grŵp o gleientiaid.

* Learning Lessons from Real Fires: Findings from Fatal Fire Investigation Reports. Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (yn Arson Control Forum, Research Bulletin No.9, 2006)

# MAE LLAWER O'R BOBL SY'N MARW NEU'N CAEL EU HANAFU MEWN TANAU YN GYFARWYDD I ASIANTAETHAU CYMORTH

PAM?

# SUT?

O ran gwella diogelwch tân, mae ymchwil wedi dangos bod partneriaethau gyda sefydliadau sydd â pherthynas barhaus a llawn ymddiriedaeth gyda'u cleientiaid, yn gallu mynd i'r afael ag ymddygiadau anniogel ac amgylchiadau sy'n cynyddu'r risg.

## Ni ellir bod yn unffurf

Rydym yn gallu teilwra atebion i'r sefydliadau yr ydym yn cydweithio â hwy, gan gymryd i ystyriaeth:

- eich grŵp o gleientiaid
- eich cymhwysedd
- y ffyrdd o weithio sydd orau gennych

Ymhlith rhai o'r atebion ymarferol y gallwn eu cynnig, mae:

- pwynt cyswllt cyson
- prosesau ar gyfer atgyfeirio cleientiaid
- hyfforddiant i staff allu adnabod peryglon tân cleientiaid
- deunyddiau generig ac wedi eu teilwra fel cymorth pellach i staff
- cyswllt gyda'r Gwasanaethau Tân yng Nghymru
- ymchwil parhaus ar ddatblygu arferion diogelwch tân cynaliadwy

## Mae'r cyfan yn fwy na chyfanswm ei rannau

Mae perygl gwirioneddol o farwolaeth neu anafiadau oherwydd tân i'r bobl yr ydych yn gweithio â hwy. Gall Atal Tân ddod â gwybodaeth, arbenigedd ac ymrwymiad er mwyn mynd i'r afael â'r perygl hwn gyda'n gilydd.  Mae eich sefydliad eisoes yn cefnogi eich grŵp o gleientiaid yn ddyddiol – chi sy'n adnabod eich cleient orau.

Gallai meithrin perthynas gyda ni olygu unrhyw beth o ddarparu canllawiau ysgrifenedig ar ddiogelwch tân ar gyfer eich staff a/neu eich cleientiaid i weithio'n uniongyrchol gyda chi i wella gwybodaeth ac arferion o ran diogelwch tân.

# CEFNOGAETH YMARFEROL AR GYFER GWELLA DIOGELWCH TÂN EICH CLEIENTIAID

SUT?

# BETH?

## Beth nesaf?

Byddem yn croesawu'r cyfle i edrych ar ffyrdd y gallwn ni gydweithio er lles eich cleientiaid.

I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â ni ar 01633 654000.

Os byddai'n well gennych gysylltu â ni ar e-bost, anfonwch air at info@firebrake.org

I ddarllen rhagor am waith Atal Tân Cymru, ewch i'n gwefan, sef www.ataltan.org

Atal Tân Cymru • Llawr Gwaelod • 6 Hazell Drive • Casnewydd • NP10 8FY
Rhif Cofrestru Elusen 110964 • Cwmni Cyfyngedig trwy Warant yng Nghymru 4556865

BETH?

# CAWN SGWRS

Atal Tân Cymru

Elusen Diogelwch Tân Cymru

# Diogelwch Tân...

## gwneud y cysylltiad

# PWY? PAM? SUT? BETH?

## Cefnogaeth ar gyfer gwella diogelwch tân eich cleientiaid